**Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant**

# Polisi Codi Tâl am Ofal a Gwasanaethau Cefnogol Oedolion

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Teitl:** | Polisi Codi Tâl am Wasanaethau Gofal Oedolion | | | |
| | Polisi ☑ | | Canllaw | ☐ |
| | Gweithdrefn ☐ | | Protocol | ☐ |
| | Arall ☐ Nodwch yma ................................ | | | |
| **Lefel Polisi:** | Adran ☐ | | Gwasanaeth | ☑ |
| | Tîm/Uned ☐ | | Partneriaeth / Amlasiantaethol | ☐ |
| | Arall ☐ Nodwch yma ................................ | | | |
| **Statws:** | Polisi Newydd ☐ | | Adolygu'r Polisi | ☒ |
| | | | Dyddiad y Fersiwn Ddiwethaf: | 27/10/25 |
| **Cyfeirnod y Ddogfen:** | | | | |
| **Cynulleidfa:** | Staff, Swyddogion, Defnyddwyr Gwasanaeth yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant | | | |
| **Awdur:** | Mari Wynne Jones - Pennaeth yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant<br><br>Alun Gwilym Williams - Pennaeth Cynorthwyol, Gwasanaethau Busnes a Chomisiynu Gofal | | | |
| **Dyddiad y Drafft Cyntaf:** | | | | |
| **Y Cyfnod Ymgynghori:**<br>**Ymgynghorwyd â:** | | | | |
| **Cymeradwywyd gan:**<br>**Dyddiad Cymeradwyo:** | | | | |
| **Dyddiad Adolygu:** | | | | |

DRAFFT

| **Cynnwys** | | **Rhif y Dudalen** |
|---|---|---|
| 1 | Cyflwyniad | 3. |
| 2 | Diben y Polisi hwn | 3. |
| 3 | Ar bwy mae'r Polisi hwn yn effeithio? | 4. |
| 4 | Gwasanaethau y Caniateir Codi Tâl Amdanynt a Gwasanaethau ble na Chaniateir Codi Tâl Amdanynt | 4. |
| 5. | Taliadau Safonol | 5. |
| 6 | Trin Cyfalaf | 5. |
| 7 | Trin Incwm | 6. |
| 8 | Lleiafswm Incwm | 6. |
| 9 | Uchafswm y Ffi Wythnosol a Godir am Wasanaethau | 8. |
| 10 | Gweithdrefn i Benderfynu ar Ffi | 8. |
| 11 | Yr Asesiad Ariannol | 9. |
| 12 | Asesu Defnyddwyr Gwasanaeth fel Pobl Sengl neu Gyplau (Gofal Dibreswyl) | 10. |
| 13 | Treuliau a Chostau (Gofal Dibreswyl) | 11. |
| 14 | Cytundebau Taliadau Gohiriedig (Gofal Preswyl / Nyrsio) | 12. |
| 15 | Taliadau Atodol - Cost Ychwanegol (Gofal Preswyl / Nyrsio yn unig) | 13. |
| 16 | Adennill Dyled ac Amddifadu o Asedau | 14. |
| 17 | Adolygiadau a Chwynion | 14. |
| | Atodiad 1 - Geirfa | 18. |


DRAFT

1. **Cyflwyniad**

1.1 Cyflwyniad

Daeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("y Ddeddf") i rym ar 6 Ebrill, 2016. Mae'r 'Ddeddf' yn rhoi'r hawl i Awdurdodau Lleol yng Nghymru godi tâl am wasanaethau gofal. Pan fydd Awdurdodau Lleol yn penderfynu codi tâl, rhaid iddynt wneud hynny yn unol â'r rheoliadau a'r cod ymarfer a nodir yn y 'Ddeddf'.

1.2 Rheoliadau

Dyma'r rheoliadau mewn perthynas ag asesiad ariannol a chodi tâl:

- Rheoliadau Gofal a Chymorth (Dewis o Lety) (Cymru) 2015
- Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) 2015
- Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiad Ariannol) (Cymru) 2015
- Rheoliadau Gofal a Chymorth (Taliadau Gohiriedig) (Cymru) 2015
- Rheoliadau Gofal a Chymorth (Adolygu Penderfyniadau a Dyfarniadau Gosod Ffi) (Cymru) 2015

1.3 Codau Ymarfer

Dyma'r Cod Ymarfer yn y Ddeddf mewn perthynas ag asesiad ariannol a gosod ffioedd:

- Rhan 4 a 5 y Cod Ymarfer (Gosod Ffioedd ac Asesiadau Ariannol)

2. **Diben y polisi hwn**

Dyma ddiben y polisi yma:

- Cadarnhau y bydd Cyngor Gwynedd yn codi tâl am wasanaethau gofal preswyl/nyrsio a dibreswyl.
- Cadarnhau y bydd yr holl ofynion yn y rheoliadau a'r cod ymarfer yn cael eu mabwysiadu fel polisi Cyngor Gwynedd.
- Bydd y rheoliadau neu'r cod ymarfer yn caniatáu i Gyngor Gwynedd, neu'n mynnu bod Cyngor Gwynedd yn defnyddio disgresiwn, er enghraifft, wrth osod rheolau codi ffioedd all fod yn fwy hael nag isafswm gofynion y rheoliadau. Oni bai y nodir fel arall yn y polisi yma, cadarnheir y bydd Cyngor Gwynedd wastad yn mabwysiadu isafswm gofynion y rheoliadau.

3. **Ar bwy mae'r polisi hwn yn effeithio?**

Bydd y polisi yn effeithio ar bob oedolyn sy'n derbyn gofal a chymorth gan Gyngor Gwynedd. Maent yn cynnwys defnyddwyr presennol a darpar ddefnyddwyr y gwasanaeth, teuluoedd a chynrychiolwyr. Mae'r polisi hwn hefyd yn berthnasol i staff yr Adran y mae disgwyl iddyn nhw fod yn cydymffurfio â'r polisi hwn.

DRAFT

## 4. Gwasanaethau y Caniateir Codi Tâl Amdanynt a Gwasanaethau ble na Chaniateir Codi Tâl Amdanynt

Yn yr adran hon, mae manylion y gwahanol wasanaethau gofal a chymorth y mae Cyngor Gwynedd yn eu darparu. Mae'n dangos pa wasanaethau fydd yn codi tâl ar ddefnyddiwr y gwasanaeth a pha wasanaethau fydd yn cael eu darparu yn rhad ac am ddim. Sylwch y gall unrhyw rai o'r isod newid.

Mewn rhai achosion, gall gwasanaethau fod yn gymysgedd o wasanaethau y codir tâl amdanynt ac yn rhai na chodir tâl amdanynt.

4.1 <u>Gwasanaethau y mae'n rhaid eu darparu'n rhad ac am ddim yn ôl y rheoliadau.</u>

- Cludiant i wasanaethau dydd lle mae'r cludiant yn cael ei ddarparu fel rhan o fodloni anghenion yr unigolyn.
- Gwasanaethau ôl-ofal a ddarperir dan Adran 117 *Deddf Iechyd Meddwl 1983* (darperir ar y cyd â Bwrdd Iechyd)
- Gwasanaethau a ddarperir i'r rheini sydd â chlefyd Creutzfeldt-Jakob
- Gwasanaethau gofal ailalluogi *(Diffiniad yn yr Eirfa: Atodiad 1).*
- Ni ddylid codi ffi am asesu anghenion, cynllunio gofal, cynlluniau gofal, darparu datganiadau ffi a chynnal adolygiad o bennu ffi neu ffi ei hun, gan nad yw'r gwasanaethau hyn yn gyfystyr â darparu gofal a chymorth. Mae hyn yn cynnwys darparu gwybodaeth a chyngor;
- Eiriolaeth broffesiynol annibynnol lle mae awdurdod lleol wedi trefnu i hyn gael ei ddarparu yn unol â'r cod ymarfer ar eiriolaeth dan Ran 10 (Cwynion, Cynrychiolwyr a Gwasanaethau Eirioli) y Ddeddf.

4.2 <u>Gwasanaethau sy'n cael eu darparu'n rhad ac am ddim oherwydd polisi Cyngor Gwynedd</u>

- Gwasanaethau uniongyrchol i ofalwyr di-dâl o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 lle nad oes elfen o ofal/cyfrifoldeb am y person sydd angen y gofal a'r cymorth. *(Diffiniad yn yr eirfa: Atodiad 1)*
- Gwasanaethau Cefnogi Pobl - Gwasanaethau a ariennir drwy'r grant Cymorth Tai
- Teleofal annibynnol *(Diffiniad yn yr eirfa: Atodiad 1)* - pecynnau nad yw canolfan alwadau Galw Gofal yn eu monitro *(Diffiniad yn yr eirfa: Atodiad 1)*
- Cefnogaeth cyflogaeth a hyfforddiant (*Diffiniad yn yr eirfa: Atodiad 1)*

4.3 <u>Gwasanaethau y mae modd codi tâl amdanynt</u>

- Gofal preswyl a nyrsio a ddarperir mewn cartref gofal. Yn cynnwys gofal parhaol, dros dro ac ysbaid *(Diffiniad yn yr eirfa: Atodiad 1).*
- Canolfan adsefydlu - cyffuriau ac alcohol
- Gwasanaethau gofal cartref y mae'r Awdurdod wedi'u comisiynu yn uniongyrchol. Mae hyn yn cynnwys amrywiaeth o ofal personol, a all gynnwys, mewn rhai achosion, gweithgareddau cymdeithasol a hamdden sy'n anelu at alluogi'r person i fyw gartref neu mewn lleoliad gofal dibreswyl. Efallai y darperir y gwasanaethau hyn yn ystod y dydd neu'r nos.
- Gwasanaethau cymorth allan yn y gymuned.

- Gwasanaethau teleofal neu dechnoleg sy'n cael eu monitro gan ganolfan alwadau er enghraifft, Galw Gofal*
- Cynllun Lleoli Oedolion *(Diffiniad yn yr eirfa: Atodiad 1).*
- Darparu gofal ac/neu gymorth mewn llety â chefnogaeth.
- Taliadau Uniongyrchol *(Diffiniad yn yr eirfa: Atodiad 1)*, oni bai y darperir i brynu gwasanaeth ac nad oes ffi amdano (gweler 4.1 a 4.2 uchod).
- Prydau a lluniaeth a ddarperir mewn canolfannau gofal dydd*
- Gofal dydd *(Diffiniad yn yr eirfa: Atodiad 1)* a ddarperir mewn canolfan ddydd/lleoliad y tu allan i'r cartref.
- Ail ofalwr (yn bresennol yn benodol i gefnogi'r gofalwr cyntaf gyda dyletswyddau megis codi a symud defnyddiwr gwasanaeth ac i ofalu am iechyd a diogelwch y gofalwr cyntaf).

*Cyfeiriwch at: 5. 'Taliadau Safonol' isod.

## 5. Taliadau Safonol

5.1 Mae'r Ddeddf (Adran 6) yn caniatáu taliad safonol am ofal a chymorth ar lefel ac am gost isel. Mae hefyd yn cael ei ganiatáu fel ffordd o godi ffi am wasanaethau ataliol a chymorth.

5.2 Mae pawb sy'n derbyn y gwasanaethau hyn yn talu taliad safonol. Ni fydd Cyngor Gwynedd yn cynnig asesiad modd i'r rheini sy'n derbyn y gwasanaethau hyn. Os oes asesiad modd yn cael ei wneud o ran darparu gwasanaethau eraill y codir tâl amdanynt, bydd y taliad safonol yn ddyladwy ar ben unrhyw isafswm tâl wythnosol arall sydd wedi'i osod. Bydd taliad safonol hefyd yn daladwy pan gaiff y derbynnydd ei asesu i dalu dim cyfraniad am wasanaethau eraill y gallai fod yn eu derbyn.

## 6. Trin Cyfalaf

6.1 Mae Atodiad A Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru yn cynnwys canllawiau manwl ar drin cyfalaf. Mae dolen i'r cod ymarfer ar ddechrau'r polisi hwn. Bydd Cyngor Gwynedd yn mabwysiadu'r canllawiau yn y cod ymarfer fel ei bolisi.

6.2 Bydd holl gynilion a chyfalaf defnyddiwr gwasanaeth yn cael ei ystyried wrth asesu ffi am ofal preswyl / nyrsio a dibreswyl, ac eithrio'r holl gyfalaf ac eiddo sy'n cael ei ddiystyru yn unol â'r manylion yn y cod ymarfer.

6.3 Yr unig wahaniaeth rhwng y ffordd yr ymdrinnir â chyfalaf ar gyfer gofal preswyl/nyrsio a dibreswyl yw bod gwerth yr eiddo lle mae'r defnyddiwr gwasanaeth yn trigo yno fel ei brif neu unig gartref, yn cael ei ddiystyru o asesiad modd gofal dibreswyl.

6.4 Bydd unrhyw gynilion a chyfalaf sy'n fwy na'r terfyn cyfalaf, fel y'i gosodir gan Lywodraeth Cymru, yn golygu y bydd y defnyddiwr gwasanaeth yn talu'r gyfradd safonol lawn am ei ofal mewn cartref gofal preswyl/nyrsio. O ran gofal dibreswyl, bydd yn golygu bod y defnyddiwr gwasanaeth yn talu'r gyfradd safonol lawn am yr holl

wasanaethau y mae'n eu derbyn hyd at yr uchafswm ffi wythnosol fel sydd wedi'i gosod gan Lywodraeth Cymru.

6.5 Os oes gan ddefnyddiwr gwasanaeth gyfalaf sy'n llai na'r terfyn cyfalaf, bydd eu cyfraniad tuag at gost eu gofal yn seiliedig ar yr hyn y gallant fforddio i'w dalu o'u hincwm. Bydd hyn yn cael ei gwneud drwy asesiad modd.

## 7. Trin Incwm

7.1 Mae Atodiad A Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru yn cynnwys canllawiau manwl ar drin incwm. Mae dolen i'r cod ymarfer ar ddechrau'r polisi hwn. Bydd Cyngor Gwynedd yn mabwysiadu'r canllawiau yn y cod ymarfer fel ei bolisi.

7.2 Bydd holl incwm defnyddwyr gwasanaeth yn cael ei ystyried wrth godi tâl ar gyfer gofal preswyl / nyrsio a gofal dibreswyl, ac eithrio pob incwm sy'n cael ei ddiystyru, sy'n ofynnol fel y manylir yn y cod ymarfer.

7.3 Am restr llawn o incwm y dylid ei ddiystyru, incwm y dylid ei ystyried yn rhannol ac incwm na fydd yn cael ei ystyried yn llawn, gweler Atodiad B y Cod Ymarfer.

7.4 Incwm Tybiannol

Efallai y bydd defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu trin fel derbynyddion incwm tybiannol dan rai amgylchiadau penodol. Gallai hyn fod o ganlyniad i fod â hawl i hawlio incwm nad ydynt wedi ei hawlio eisoes, neu wedi amddifadu eu hunain yn fwriadol o incwm er mwyn osgoi talu ffioedd am ofal. Bydd Cyngor Gwynedd yn ystyried incwm tybiannol yn unol â'r canllawiau sydd wedi'u nodi yn y cod ymarfer.

## 8. Lleiafswm Incwm (MIA)

Wrth wneud asesiad ariannol, rhaid i awdurdod lleol adael lleiafswm incwm (MIA) i ddefnyddiwr gwasanaeth. Mae MIA gwahanol yn cael ei osod ar gyfer gwasanaethau gofal preswyl / nyrsio a dibreswyl.

8.1 Gofal Preswyl / Nyrsio

Mae'r MIA ar gyfer gofal preswyl a nyrsio yn cael ei osod gan Lywodraeth Cymru. Mae hwn yn swm ariannol penodol, ac mae'r manylion i'w gweld ar wefan Cyngor Gwynedd bob blwyddyn.

Polisi Cyngor Gwynedd yw defnyddio'r MIA sydd wedi'i osod gan Lywodraeth Cymru fel ei MIA safonol. Nid yw hyn yn atal defnyddwyr gwasanaeth rhag gwneud cais am MIA uwch dan amodau penodol. Byddwn yn ymdrin â phob cais i gynyddu'r MIA safonol yn unol â'r canllawiau sydd wedi'u darparu yng Nghod Ymarfer Llywodraeth Cymru.

8.2 Gofal Dibreswyl

DRAFT

Mae'r MIA ar gyfer derbynyddion gofal dibreswyl yn cael ei gyfrifo yn unol â fformiwla sydd wedi'i osod gan Lywodraeth Cymru yn ei reoliadau. Yn hytrach na bod yn swm ariannol penodol, mae MIA ar gyfer gofal dibreswyl yn seiliedig ar hawl sylfaenol pob unigolyn *(Diffiniad yn yr Eirfa: Atodiad 1)* i fudd-dal lles perthnasol. Mae manylion llawn ynghylch sut i gyfrifo MIA ar gyfer gofal dibreswyl wedi'u nodi yn y rheoliadau a'r cod ymarfer. Byddai darluniad syml fel yr isod:

**Hawl sylfaenol i Fudd-dal + 35% + 10% = Lleiafswm Incwm**

*(Help i gyfrifo'r Hawl Sylfaenol i Fudd-dal wedi'i ddarparu yn 8.3*)

Polisi lleol Cyngor Gwynedd yw rhoi i bob defnyddiwr gwasanaeth leiafswm incwm yn seiliedig ar eu hawl sylfaenol i Fudd-dal Lles.

8.3 Hawl Sylfaenol

Mae'r hawl sylfaenol i fudd-dal yn cael ei gyfrifo fel a ganlyn:

- Cymhorthdal Incwm / Lwfans Ceisio Gwaith: y lwfans personol ac unrhyw bremiwm y mae gan y defnyddiwr gwasanaeth hawl iddo, ond ddim o anghenraid yn cynnwys y Premiwm Anabledd Difrifol (SDP) lle mae'n cael ei dalu, a phan fo defnyddiwr gwasanaeth yn ofalwr, mae'n cynnwys unrhyw bremiwm gofalwr y mae'r person hwnnw'n ei dderbyn.

- Lwfans Cyflogaeth a Chefnogi: y lwfans personol ac unrhyw bremiwm a chydran y mae gan y defnyddiwr gwasanaeth hawl iddo, ond ddim o anghenraid yn cynnwys y SDP lle mae'n cael ei dalu, a phan fo defnyddiwr gwasanaeth yn ofalwr, mae'n cynnwys unrhyw bremiwm gofalwr y mae'r person hwnnw'n ei dderbyn.

- Gwarant Lleiafswm Credyd Pensiwn: y lwfans personol ac unrhyw swm ychwanegol y mae gan y defnyddiwr gwasanaeth hawl iddo, ond ddim o anghenraid yn cynnwys y swm ychwanegol a roddir am anabledd dwys, a phan fo defnyddiwr gwasanaeth yn ofalwr, mae'n cynnwys unrhyw swm ychwanegol sy'n gymwys i ofalwyr, y mae'r person hwnnw'n ei dderbyn.

Yn gyffredinol, ond nid ymhob achos, bydd yr MIA i ddefnyddwyr gwasanaeth o oed gwaith, o gymharu â'r rhai o oed ymddeol, yn is. Mae hyn yn sgil y ffaith bod eu hawl sylfaenol i fudd-dal yn is. Mae cyfrifiadau manwl ar gyfer MIA i bob oedran o ddefnyddiwr gwasanaeth ar gael ar gais (01286 682753 / unedincwmalles@gwynedd.llyw.cymru).

8.4 Byffer

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod y lleiafswm byffer ar 35% o hawl sylfaenol defnyddiwr gwasanaeth i fudd-daliadau. Polisi Cyngor Gwynedd bob amser yw gweithredu'r lleiafswm byffer fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

8.5 Gwariant sy'n Ymwneud ag Anabledd (DRE)

DRAFT

Mae'r lleiafswm sy'n rhaid ei ganiatáu ar gyfer gwariant sy'n ymwneud ag anabledd yn cael ei osod gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd fel 10% o'r hawl sylfaenol i fudd-daliadau. Polisi Cyngor Gwynedd bob amser yw gweithredu'r lleiafswm byffer ar gyfer DRE fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Nid yw hyn yn atal defnyddiwr gwasanaeth rhag gwneud cais i adolygu eu ffioedd os ydynt o'r farn bod eu gwariant sy'n ymwneud ag anabledd yn fwy na 10% o'r swm safonol a ganiateir.

## 9. Uchafswm Ffi Wythnosol a Godir am Wasanaethau

9.1 Gofal preswyl / nyrsio a ddarperir mewn cartref gofal.

Nid oes uchafswm ffi wythnosol ar gyfer gofal preswyl / nyrsio. Mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn atebol i dalu'r gost lawn am eu gofal. Os bydd defnyddwyr gwasanaeth angen cymorth ariannol gan Gyngor Gwynedd i gwrdd â chost eu gofal, mae gofyn iddynt wneud cais am asesiad modd. Bydd asesiad modd yn cadarnhau lefel y cyfraniad fydd ei angen gan y defnyddiwr gwasanaeth. Gallai hyn fod yn gost lawn y gofal, neu swm llai.

Fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau a'r cod ymarfer, bydd y cyfraniad gofynnol tuag at gost yr wyth wythnos gyntaf o arhosiad dros dro neu seibiant mewn cartref gofal yn cael ei asesu yn unol â'r rheolau ar gyfer gofal dibreswyl. O ganlyniad, bydd yr uchafswm ffi wythnosol yn unol â'r rheoliadau a'r polisi ar gyfer gofal dibreswyl, yn gymwys.

I wneud cais am asesiad profi modd, bydd angen i ddefnyddwyr gwasanaeth gysylltu â'r Tîm Incwm a Lles.

9.2 Gofal dibreswyl

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod uchafswm ffi wythnosol am wasanaethau gofal dibreswyl. Cyfeiriwch at adran 7 y cod ymarfer. Mae'r uchafswm ffi wythnosol presennol wedi'i nodi ar wefan Cyngor Gwynedd bob blwyddyn neu fe allwch gysylltu â'r Tîm Incwm a Lles.

Polisi Cyngor Gwynedd yw defnyddio'r uchafswm ffi wythnosol sydd wedi'i gosod gan Lywodraeth Cymru. Bydd y ffi uchaf yn gymwys i holl dderbynyddion gwasanaethau gofal dibreswyl, oni bai, o ganlyniad i'w hasesiad modd unigol, bod uchafswm ffi wythnosol is yn cael ei gosod yn seiliedig ar yr hyn y pennir y maent yn gallu ei fforddio.

## 10. Gweithdrefn i Benderfynu ar Ffi

10.1 Gofal preswyl / nyrsio

Ar gyfer gofal preswyl/nyrsio, bydd cyfraniad y defnyddiwr gwasanaeth yn cael ei gadarnhau naill ai cyn i'r gofal ddechrau, neu ar y cyfle cynharaf posibl ar ôl dechrau'r

lleoliad. Mae'r holl gyfraniadau ar gyfer gofal preswyl a nyrsio yn daladwy o'r diwrnod cyntaf y darperir y gwasanaeth.

Bydd unrhyw newidiadau dilynol i gyfraniad y defnyddiwr gwasanaeth yn cael eu cyfathrebu'n ysgrifenedig, neu mewn fformat arall y cytunwyd arno. Bydd unrhyw newidiadau i gyfraniadau yn dilyn yr asesiad cychwynnol yn berthnasol o ddyddiad yr hysbysiad.

Wrth derfynu lleoliad preswyl neu ofal nyrsio, mae'n ofynnol i ddefnyddwyr gwasanaeth dalu cyfnod rhybudd. Mae'r cyfnod rhybudd yn 7 diwrnod ac mae'n rhaid i unigolion dalu'r gost sydd wedi'i chyfrifo trwy asesiad ar gyfer y cyfnod hwn.

Pan fydd yn absennol o'r cartref gofal, bydd cyfraniad y defnyddiwr gwasanaeth yn dal i fod yn daladwy. Gall cyfradd ostyngol fod yn berthnasol, yn ôl disgresiwn Cyngor Gwynedd.

10.2 <u>Gofal dibreswyl</u>

Er mwyn cyfrifo'r swm y mae angen i ddefnyddiwr gwasanaeth dalu am wasanaeth neu gyfuniad o wasanaethau mewn unrhyw wythnos (bydd wythnos bob amser o ddydd Llun i'r dydd Sul canlynol), bydd Cyngor Gwynedd yn bwrw ymlaen fel a ganlyn:

a) Nodi'r holl wasanaethau taladwy gwirioneddol y mae'r defnyddiwr gwasanaeth yn eu derbyn yn wythnosol. Os nad yw hyn yn bosibl erbyn i anfoneb gael ei chynhyrchu (mis calendr mewn ôl-ddyledion), bydd y tâl yn seiliedig ar gynllun gofal penodol yr unigolyn. Os yw'r unigolyn yn derbyn gwasanaethau y codir tâl amdanynt a gwasanaethau ble nad oes ffi, dim ond y gwasanaethau taladwy fydd yn cael eu hystyried.
b) Defnyddir y Ffi Safonol berthnasol ar gyfer pob gwasanaeth. (E.e. £X.00 yr awr ar gyfer gofal cartref).
c) Cyfrifo'r holl Ffioedd Safonol am y gwasanaethau a ddarperir i gael cyfanswm y ffi am yr wythnos.
d) Defnyddio'r Uchafswm Ffi Wythnosol, (efallai na fydd hyn yn berthnasol os yw cyfanswm y ffi wythnosol yn llai na'r uchafswm), neu os yw'n is:
e) Defnyddio Uchafswm Ffi Wythnosol y defnyddiwr gwasanaeth unigol fel y'i pennir gan asesiad modd y defnyddiwr gwasanaeth unigol (os gofynnwyd am un).

Mae'r holl gyfraniadau ar gyfer gofal dibreswyl yn daladwy o'r diwrnod cyntaf y darperir y gwasanaeth. Bydd cyfraniad y defnyddiwr gwasanaeth yn cael ei gadarnhau naill ai cyn i'r gofal ddechrau, neu ar y cyfle cynharaf posibl ar ôl dechrau'r gofal. Bydd unrhyw newidiadau dilynol i gyfraniad y defnyddiwr gwasanaeth yn cael eu cyfathrebu'n ysgrifenedig, neu mewn fformat arall y cytunwyd arno. Bydd unrhyw newidiadau i ffi yn berthnasol o ddyddiad yr hysbysiad.

## 11. Yr Asesiad Ariannol

11.1 Rhoddir gwybod i'r holl ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n derbyn gwasanaeth taladwy gan Gyngor Gwynedd bod ganddynt hawl i wneud cais am gymorth ariannol gan Gyngor Gwynedd i dalu am eu gofal. Gellir gwneud y cais hwn drwy lenwi ffurflen gais (cysylltwch â 01286 682753 / unedincwmalles@gwynedd.llyw.cymru i wneud cais am

ffurflen) am asesiad ariannol. Yr unig eithriad yw lle mae ffi cyfradd sylfaenol yn daladwy gan bawb a lle nad oes asesiad ariannol yn cael ei gynnig.

Rhoddir 15 diwrnod gwaith i ddefnyddwyr gwasanaeth gwblhau a dychwelyd y ffurflen asesiad ariannol. Os na fydd y ffurflen yn cael ei dychwelyd yn y cyfnod hwn, bydd Cyngor Gwynedd yn tybio nad yw'r defnyddiwr gwasanaeth yn dymuno gwneud cais am gymorth ariannol gan y Cyngor a bydd anfoneb am y ffi wythnosol lawn yn cael ei hanfon i'r defnyddiwr gwasanaeth.

Mae defnyddwyr gwasanaeth yn atebol i dalu am eu gofal o'r diwrnod cyntaf y mae'n cael ei dderbyn. Cyn y codir unrhyw ffi, bydd Cyngor Gwynedd yn rhoi datganiad i'r defnyddiwr gwasanaeth sy'n manylu ar faint yw'r swm y byddant yn ei dalu a sut y cyfrifwyd y swm hwn. O bryd i'w gilydd, bydd y swm sydd i'w dalu yn newid, ac efallai y bydd hyn yn digwydd oherwydd:

- Newid i'r math o ofal sy'n cael ei dderbyn
- Newid ym modd y defnyddiwr gwasanaeth (asesiad ariannol)
- Newid yn y gost i'r Cyngor o ddarparu'r gofal.

Bydd unrhyw newid yn y swm sydd i'w dalu yn cael ei gyfathrebu i'r defnyddiwr gwasanaeth drwy ddatganiad. Bydd unrhyw newidiadau yn weithredol o ddyddiad y datganiad hwnnw.

11.2 Mae cyngor a chefnogaeth briodol ar y budd-daliadau lles sydd ar gael i'r rhai sy'n cael eu hasesu fel rhai sy'n medru cyfrannu'n ariannol tuag at eu gofal a'u cefnogaeth, ynghyd â gofalwyr di-dâl, a chefnogaeth i'w helpu i ddeall pa fudd-daliadau y gallant fod â hawl iddynt.

11.3 Mae gan ddefnyddwyr gwasanaeth yr hawl i ofyn am asesiad modd ar unrhyw amser, hyd yn oed os ydynt wedi penderfynu peidio â gwneud cais am un yn y gorffennol.

11.4 Nid yw Cyngor Gwynedd dan unrhyw oblygiad i ôl-ddyddio unrhyw asesiad sy'n cael ei gynnal yn ddiweddarach os na wnaeth y defnyddiwr gwasanaeth gais am asesiad modd yn flaenorol. Bydd y defnyddiwr gwasanaeth yn atebol am unrhyw swm sy’n ddyladwy rhwng dyddiad yr asesiad ariannol gwreiddiol a dyddiad yr asesiad ariannol newydd, os y gofynnir am un.

## 12. Asesu Defnyddwyr Gwasanaeth fel Pobl Sengl neu Gyplau (Gofal Dibreswyl)

12.1 Oni bai y gwneir cais fel arall gan y defnyddiwr gwasanaeth, bydd Cyngor Gwynedd yn asesu gallu'r defnyddiwr gwasanaeth i dalu yn seiliedig ar ei fodd unigol a bydd yn diystyru unrhyw incwm, cynilion neu gyfalaf sy'n cael ei ddal neu'n cael ei dderbyn yn enw unigol y partner.

Os yw'r defnyddiwr gwasanaeth yn gwneud cais am hynny, gellir cwblhau asesiad modd ar gyfer y cwpl. Yn ogystal â manylion y defnyddiwr gwasanaeth, rhaid i'r partner hefyd gyflwyno ei holl fanylion ariannol personol.

12.2 <u>Asesiad Unigol</u>

DRAFT

Mewn amgylchiadau pan fo defnyddiwr gwasanaeth yn gwneud cais am asesiad unigol, bydd yr asesiad yn ystyried yr isod:

- 100% o’r holl incwm a dderbynnir yn enw’r defnyddiwr gwasanaeth yn unig
- 50% o gyfalaf / cynilion a ddelir ar y cyd
- 100% o’r cyfalaf yn enw'r defnyddiwr gwasanaeth yn unig.

12.3 Asesiad Cwpl

Wrth gyfrifo asesiad cwpl, bydd yr incwm a ddiystyrir yn cael ei gyfrifo drwy ddefnyddio’r hawl sylfaenol perthnasol i fudd-daliadau i gyplau a 45%.

Nid oes modd rhoi cyngor i ddefnyddiwr gwasanaeth cyn cynnal asesiad modd. Er enghraifft, os ydynt yn debygol o fod mewn gwell lle wrth gael eu hasesu fel person sengl neu fel cwpl. Fodd bynnag, pan fo canlyniad yr asesiad yn hysbys, yr asesiad sydd fwyaf ffafriol i’r defnyddiwr gwasanaeth fydd yn cael ei ddefnyddio.

12.4 Beth os yw’r ddau yn ddefnyddwyr gwasanaeth?

Pan fo'r ddau bartner mewn cwpl yn ddefnyddwyr gwasanaeth, bydd ganddynt ddewis i gael eu hasesu fel unigolion neu fel cwpl, ac mae hyn hefyd yn gymwys pan fo un partner yn ofalwr di-dâl. Mae modd i gyplau sydd wedi cael eu hasesu ar wahân yn flaenorol, gael ei hail-asesu fel cwpl, neu fel arall.

Os y defnyddir asesiad cwpl, dylai’r ffi fod yn berthnasol i’r defnyddiwr gwasanaeth sy’n derbyn y lefel uchaf o ofal yn gyntaf.

Os nad yw’r lefel o wasanaeth y mae’r defnyddiwr cyntaf yn ei dderbyn (mewn termau ariannol) yn ddigonol i gyrraedd yr Uchafswm Rhesymol y Ffi am Wasanaeth i’r cwpl, yna dylid trosglwyddo gweddill y ffi i’r ail ddefnyddiwr gwasanaeth.

Enghraifft: Os yw’r cap a bennir i'r cwpl gan yr asesiad modd yn £60 yr wythnos a bod y Gwasanaeth taladwy y mae'r Defnyddiwr Gwasanaeth cyntaf yn ei dderbyn gyfwerth â ffi o £30, yna gellir codi hyd at £30 yr wythnos ar yr ail ddefnyddiwr gwasanaeth am y gofal y mae'n ei dderbyn).

Bydd y cyfyngiad cyfalaf yn cael ei ddyblu wrth asesu cwpl. Os yw’r cynilion neu’r cyfalaf y mae’r cwpl yn berchen arnynt rhyngddynt yn uwch na’r lefel hon, byddant yn gorfod talu’r gyfradd safonol lawn am y Gwasanaeth y maent yn ei dderbyn hyd at Uchafswm Rhesymol y Ffi Wythnosol a osodir gan Lywodraeth Cymru.

Er dibenion asesu cwpl pan fo’r ddau yn derbyn gofal, bydd yr Uchafswm Ffi Rhesymol Wythnosol yn berthnasol i bob defnyddiwr gwasanaeth yn unigol.

## 13. Treuliau a Chostau

**(Gofal dibreswyl)**

13.1 Mewn rhai amgylchiadau, rhaid ystyried treuliau a chostau penodol wrth gynnal asesiad modd. Pan fo defnyddiwr gwasanaeth angen talu'r costau yma, bydd y 'lleiafswm incwm' yn cael ei gynyddu gan swm wythnosol cyfatebol. Bydd hyn yn caniatáu i’r defnyddiwr gwasanaeth gadw digon o arian i dalu'r treuliau hyn cyn iddynt orfod dechrau talu am ofal.

Bydd y treuliau isod yn cael eu hystyried mewn asesiad modd dibreswyl:

- Taliadau Morgais
- Taliadau Rhent (net budd-dal tai)
- Treth Cyngor (net gostyngiad Treth Cyngor)
- Yswiriant ac yn benodol yswiriant cartref (adeilad a chynnwys), ac yswiriant diogelu morgais.

Rhaid i ddefnyddiwr gwasanaeth gyflwyno prawf bod unrhyw dreuliau yn cael eu talu ac yn ddyledus i'w talu yn y dyfodol cyn y gellir eu cyfrif yn yr asesiad modd. Ni fydd asesiadau ariannol yn cael eu newid yn ôl-weithredol os na chafodd y wybodaeth angenrheidiol ei darparu pan oedd angen ar gyfer yr asesiad ariannol cychwynnol.

13.2 Bydd unrhyw dreuliau neu gostau sydd gan ddefnyddiwr gwasanaeth sy'n byw ar ei ben ei hun yn cael eu hystyried yn llawn. Os yw'r defnyddiwr gwasanaeth yn byw gyda phartner neu oedolion eraill dros 18 oed nad ydynt mewn addysg lawn amser, bydd unrhyw dreuliau neu gostau yn cael eu haneru neu'n cael eu rhannu'n gyfran gyfartal i adlewyrchu cyfraniad pob oedolyn sy'n byw ar yr aelwyd tuag at y costau.

**(Gofal Preswyl / Nyrsio)**

13.3 Fel arfer, ni fydd defnyddiwr gwasanaeth sydd angen gofal preswyl neu nyrsio parhaol yn cael cynnydd i'w lleiafswm incwm i dalu am dreuliau. Dylid ystyried unrhyw gais o'r fath yn ôl ei rinweddau ei hun. Mae Atodlen B Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru yn rhestru rhai enghreifftiau o amgylchiadau lle y gallai Awdurdodau Lleol ystyried cynyddu'r lleiafswm incwm.

## 14. Cytundebau Taliadau Gohiriedig (Gofal Preswyl / Nyrsio)

14.1 Ar ôl 12 wythnos gyntaf y gofal preswyl / nyrsio parhaol, bydd gwerth prif neu unig gartref defnyddiwr gwasanaeth yn cael ei gynnwys fel cyfalaf yn ei asesiad modd ariannol. Fel arfer, bydd hyn yn golygu bod eu cyfalaf yn fwy na'r terfyn cyfalaf, ac o ganlyniad byddant yn cael eu hasesu fel bod angen iddynt dalu'r gost lawn am eu gofal. Ar y pwynt hwn, os nad oes ganddynt unrhyw asedau eraill neu fodd o dalu'r gost lawn, byddant yn gymwys i ofyn i Gyngor Gwynedd oedi taliadau am gyfran o'u gofal a defnyddio eu heiddo fel gwarant. Mae'r trefniant hwn yn cael ei alw yn gytundeb talu gohiriedig. Gall gohirio taliadau helpu'r defnyddiwr gwasanaeth i oedi'r angen i werthu ei gartref mewn cyfnod sy'n gallu bod yn heriol iddyn nhw a'u teulu, wrth iddynt drosglwyddo i ofal preswyl.

DRAFT

14.2 Bydd Cyngor Gwynedd yn mabwysiadu fel ei bolisi, y gofynion a'r canllawiau sy'n ymwneud â thaliadau gohiriedig fel sydd wedi'u nodi yn Atodiad D, Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru.

14.3 Mae Cyngor Gwynedd yn cadw'r hawl i godi adlog ar yr holl gytundebau talu gohiriedig ar y gyfradd uchaf a ganiateir gan y rheoliadau. Mae hyn yn 0.15% uwchben y 'gyfradd berthnasol'. Y gyfradd berthnasol yw'r gyfradd giltiau marchnad sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad mwyaf diweddar a gyhoeddwyd gan yr 'Office for Budget Responsibility'. Gall y gyfradd berthnasol newid bob chwe mis ar 1 Ionawr a 1 Gorffennaf.

14.4 Mae llog yn daladwy o ddiwrnod cyntaf y cytundeb ar yr holl symiau sy'n ddyledus, yn cynnwys unrhyw log neu ffioedd sydd heb eu talu sydd wedi'u cronni mewn perthynas â'r cytundeb. Ni fydd y llog yn stopio cronni hyd nes i'r ddyled gael ei had-dalu yn llawn.

14.5 Mae gan Gyngor Gwynedd hawl i godi ffioedd gweinyddol am osod cytundeb talu gohiriedig yn ei le. Bydd hyn yn talu am gostau gweinyddol, cyfreithiol a phrisio sy'n codi wrth sefydlu'r cytundeb. Efallai y codir ffioedd pellach yn ystod oes y cytundeb, os oes angen cael prisiadau pellach. Mae manylion yr holl ffioedd y gellir eu codi ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd neu fe allwch gysylltu â'r tîm incwm a lles.

## 15 Taliadau Atodol - Cost Ychwanegol (Gofal Preswyl / Nyrsio yn unig)

15.1 Mewn amgylchiadau lle mae defnyddiwr gwasanaeth yn mynegi dymuniad i fyw mewn cartref gofal sy'n codi mwy na ffi safonol Cyngor Gwynedd, ar ôl cael cynnig opsiynau o fewn ffi safonol Cyngor Gwynedd, efallai y bydd modd gwneud trefniant os oes trydydd parti yn fodlon talu'r gost ychwanegol.

Y Gost Ychwanegol yw'r gwahaniaeth rhwng y swm y byddai disgwyl i Gyngor Gwynedd i'w dalu fel arfer a chost y cartref gofal dewisol.

15.2 Mae Atodiad C, canllawiau Llywodraeth Cymru yn amlinellu'r gofynion sy'n cael eu rhoi ar yr Awdurdod wrth ymdrin â chostau ychwanegol.

15.3 Bydd Cyngor Gwynedd angen i unrhyw drydydd parti ymrwymo i gytundeb ffurfiol gyda'r Cyngor cyn y cytunir ar unrhyw leoliad lle mae angen cost ychwanegol.

15.4 Bydd Cyngor Gwynedd yn talu cost lawn y lleoliad i'r cartref gofal. Bydd y trydydd parti yn digolledu Cyngor Gwynedd gyda'r swm y cytunwyd arno pan fyddant yn derbyn anfoneb gyfnodol.

15.5 Bydd Cyngor Gwynedd yn gadael i'r defnyddiwr gwasanaeth dalu ei gost ychwanegol ei hun:

- pan fo yn y cyfnod 12 wythnos lle mae eu heiddo'n cael ei ddiystyru,
- pan fo nhw'n cytuno i ymrwymo i gytundeb ffioedd gohiriedig.

DRAFT

15.6 Ni chaniateir gohirio talu'r costau ychwanegol mewn amgylchiadau lle mae'r ecwiti sydd ar gael yn yr eiddo sydd i'w ddefnyddio fel gwarant yn gyfyngedig. Bydd Cyngor Gwynedd yn asesu cynaliadwyedd pob cais i ohirio cost ychwanegol. Os pennir nad oes digon o ecwiti yn yr eiddo i alluogi'r defnyddiwr gwasanaeth i dalu'r gost lawn am eu gofal am hyd eu lleoliad, efallai y bydd cais i oedi cost ychwanegol yn cael ei wrthod.

15.7 Os bydd trydydd parti'n rhoi'r gorau i dalu'r gost ychwanegol y maent wedi cytuno ei thalu, byddant yn parhau i fod yn atebol am y gost hon. Gallai Cyngor Gwynedd gymryd camau cyfreithiol i adennill y gost. Yn ogystal, efallai y bydd yn rhaid iddo wneud trefniadau amgen i gwrdd ag anghenion y defnyddiwr gwasanaeth mewn cartref gofal amgen sydd ddim yn codi tâl am gostau ychwanegol.

## 16. Adennill Dyled ac Amddifadu o Asedau

Mae Atodiad F Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru yn amlinellu'r gofynion sy'n cael eu rhoi ar Awdurdodau Lleol wrth ymdrin â dyled ac amddifadu o asedau. Bydd Cyngor Gwynedd yn ystyried peidio â thalu cyfraniad a aseswyd, neu bobl sy'n amddifadu eu hunain o asedau er mwyn osgoi ffi, fel mater difrifol. Lle mae pob opsiwn arall fel y'i disgrifir yn y Cod Ymarfer wedi methu â sicrhau'r taliad gofynnol, bydd Cyngor Gwynedd yn mynd ar ôl y ddyled drwy'r llysoedd sifil.

## 17. Adolygiadau a Chwynion

17.1 Gall unrhyw ddefnyddiwr gwasanaeth wneud cais i adolygu eu ffi. Gall adolygu ffi gynnwys amrediad eang o sefyllfaoedd yn amrywio o ddefnyddiwr gwasanaeth yn gwneud cais syml i adolygu'r cyfrifo mathemategol yn eu ffi asesedig neu i adolygu'r anfoneb fisol i ddefnyddiwr gwasanaeth yn gofyn am i dreuliau sy'n gysylltiedig ag anabledd gael eu hystyried wrth gyfrifo eu ffi asesedig.

17.2 Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'n fanwl y broses y dylai Awdurdodau Lleol ei dilyn wrth ymdrin ag adolygiadau ffioedd yn Atodiad E yn eu Cod Ymarfer. Mae'n bolisi gan Gyngor Gwynedd i ddilyn yr holl ofynion fel sydd wedi'u manylu yn y Cod Ymarfer.

Dylid anfon yr holl geisiadau i adolygu ffioedd ymlaen i'r Uned Incwm a Lles: 01286 682753 / unedincwmalles@gwynedd.llyw.cymru. Bydd yr uned yn rheoli a chydlynu'r ymatebion a roddir i'r holl adolygiadau ffioedd ar ran Gwasanaethau Oedolion. Ym mhob achos, bydd defnyddiwr gwasanaeth yn cael enw a rhif cyswllt y swyddog sy'n ymdrin â'u hadolygiad.

Gall yr Uned Incwm a Lles ddatrys rhai adolygiadau yn gyflym, e.e. camgymeriadau mathemategol mewn cyfrifiadau. Gallai rhai adolygiadau gymryd mwy o amser a golygu bod yr Uned Incwm a Lles angen cadarnhad gan ddarparwyr gwasanaeth ac/neu Gydlynwyr Gofal ynghylch lefelau'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu a'i gomisiynu fel bod modd ateb adolygiad.

Bydd pob cais am adolygiad na all gael ei ddatrys hyd foddhad y defnyddiwr gwasanaeth, tra'n cydymffurfio â'r Polisi Codi Tâl, yn cael ei gyfeirio am benderfyniad i'r Pennaeth Oedolion neu eu cynrychiolydd penodedig.

Os nad yw defnyddiwr gwasanaeth yn fodlon â’r ymateb a dderbyniwyd i’w cais am adolygiad, mae ganddynt bob hawl i wneud cwyn swyddogol i Wasanaethau Cymdeithasol a dilynir y broses cwynion ffurfiol ym mhob achos. Mae gwybodaeth ynghylch sut y gall defnyddiwr gwasanaeth wneud cwyn swyddogol ar gael yma.

Rhaid i unrhyw gais gan ddefnyddiwr gwasanaeth nodi’n glir ar ba sail y gwneir cais am yr adolygiad. Gellir gwneud cais ar lafar neu yn ysgrifenedig ac fe ellir ei wneud ar unrhyw adeg ar ôl i ddatganiad ffi gael ei gyflwyno.

Gall Gwasanaethau Oedolion wrthod cais am adolygiad pe credant nad oes unrhyw newid perthnasol wedi bod yn amgylchiadau'r defnyddiwr gwasanaeth yn dilyn cais blaenorol am adolygiad. Yn yr achos hwn, bydd datganiad yn cael ei anfon i'r defnyddiwr gwasanaeth yn amlinellu'r rheswm am wrthod y cais.

Gall y defnyddiwr gwasanaeth neu gynrychiolydd sy'n gweithredu ar eu rhan wneud cais am adolygiad.

Pan fo'r Gwasanaethau Cymdeithasol mewn sefyllfa i wneud penderfyniad ar adolygiad ymhen pum diwrnod gwaith o dderbyn cais, dylid rhoi'r penderfyniad i'r defnyddiwr gwasanaeth o fewn y cyfnod amser hwnnw. Lle nad yw hyn yn bosib, bydd yr Uned Incwm a Lles yn anfon datganiad ymhen pum diwrnod gwaith yn nodi:

a) Y dyddiad pan dderbyniwyd y cais.
b) Natur y cais.
c) Hawl y defnyddiwr gwasanaeth i benodi cynrychiolydd.
d) Sut fydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnal yr adolygiad.
e) Nad yw'r defnyddiwr gwasanaeth angen talu'r ffi sy'n destun adolygiad yn ystod cyfnod yr adolygiad.
f) Y bydd y Gwasanaethau Oedolion yn mynd ar ôl taliad unrhyw ffi sy'n cronni yn ystod y cyfnod adolygu os yw'n dod yn daladwy o ganlyniad i'r adolygiad.
g) Pa wybodaeth ychwanegol y mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol ei angen i wneud penderfyniad, ac o fewn pa amserlen (15 diwrnod gwaith) y mae angen darparu'r wybodaeth hon.
h) Y gall y defnyddiwr gwasanaeth wneud cais am ymweliad cartref er mwyn i'r Uned Incwm a Lles gynorthwyo i ddarparu'r wybodaeth ychwanegol.
i) Enw a manylion cyswllt y swyddog yn yr Uned Incwm a Lles sy'n ymdrin â'r adolygiad.
j) Manylion cyswllt unrhyw sefydliad a allai gynorthwyo'r defnyddiwr gwasanaeth yn ystod y cyfnod adolygu.

Bydd unrhyw gais gan ddefnyddiwr gwasanaeth am fwy o amser er mwyn medru darparu unrhyw wybodaeth ychwanegol yn cael ei ganiatáu os yn rhesymol. Bydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cadarnhau yn ysgrifenedig unrhyw estyniad i'r terfyn amser gwreiddiol.

Os gwrthodir cais am estyniad amser gan y Gwasanaethau Cymdeithasol, bydd hyn yn cael ei gadarnhau yn ysgrifenedig a rhoddir rheswm dros y penderfyniad.

Os na dderbynnir ymateb neu gais am estyniad amser gan y Gwasanaethau Cymdeithasol erbyn y dyddiad cau a osodwyd, bydd yr Uned Incwm a Lles yn ystyried

DRAFT

bod y cais am adolygiad wedi'i dynnu'n ôl. Bydd llythyr yn cael ei anfon at y defnyddiwr gwasanaeth yn cadarnhau hyn, a bod y ffi a osodwyd bellach yn daladwy. Bydd manylion y swm a gronnwyd (os o gwbl) yn ystod y cyfnod adolygu, ac erbyn pa ddyddiad y mae angen talu hyn, yn cael eu cynnwys.

Gall cais am adolygiad gael ei dynnu'n ôl ar lafar neu'n ysgrifenedig gan ddefnyddiwr gwasanaeth ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod adolygu.

Unwaith y bydd y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi derbyn digon o wybodaeth a dogfennaeth i gynnal yr adolygiad, bydd ganddynt 10 diwrnod gwaith i:

a) Wneud penderfyniad ar yr adolygiad a chymryd unrhyw gamau sy'n angenrheidiol i'w weithredu.
b) Anfon datganiad at y defnyddiwr gwasanaeth ac unrhyw gynrychiolydd yn nodi'r penderfyniad, y rhesymau dros y penderfyniad hwnnw a bod ganddynt yr hawl i wneud cwyn o dan Reoliadau Gweithdrefn Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014 os ydynt yn anfodlon â'r penderfyniad.
c) Os yw ffi'r defnyddiwr gwasanaeth wedi'i ddiwygio o ganlyniad i'r adolygiad, dylid anfon datganiad at y defnyddiwr gwasanaeth yn esbonio'r penderfyniad a chanlyniad y penderfyniad hwn.
d) Darparu datganiad ffioedd.

Os nad yw'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn gallu cwrdd â'r dyddiad cau ar gyfer ymateb i'r cais am adolygiad (10 diwrnod gwaith), rhaid iddynt anfon datganiad at y defnyddiwr gwasanaeth yn nodi na fyddant yn gallu darparu penderfyniad o fewn y terfyn amser o 10 diwrnod gwaith, y rheswm pam a'r dyddiad erbyn y bydd yn cael ei ddarparu.

Os na ellir darparu penderfyniad erbyn y terfyn amser, ni fydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn gallu codi tâl ar y defnyddiwr gwasanaeth am y gwasanaeth a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod rhwng y terfyn amser a'r dyddiad y darperir penderfyniad.

17.2 <u>Talu'r Ffi, Ad-daliad neu Gyfraniad yn ystod ac ar ôl y Cyfnod Adolygu</u>

Os bydd defnyddiwr gwasanaeth yn gofyn am adolygiad, efallai y bydd yn dewis peidio â thalu'r cyfraniad sy'n destun yr adolygiad yn ystod y cyfnod adolygu cyfan, ond bydd unrhyw swm heb ei dalu yn cronni.

Os yw'r defnyddiwr gwasanaeth yn penderfynu peidio â thalu yn ystod y cyfnod adolygu, rhaid iddo roi gwybod i'r Uned Incwm a Lles naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig o fewn pum diwrnod gwaith.

Gall y Gwasanaethau Oedolion adennill unrhyw swm heb ei dalu sydd wedi cronni yn ystod y cyfnod adolygu ar ôl y cyfnod adolygu. Y swm cronnus y gellir ei adennill yw swm y cyfraniad y mae'r Gwasanaethau Oedolion wedi penderfynu ei fod yn gywir, yn dilyn yr adolygiad.

DRAFT

Os yw'r Gwasanaethau Oedolion yn penderfynu bod y cyfraniad sy'n daladwy gan y defnyddiwr gwasanaeth, yn **llai** na'r hyn a weithredwyd yn flaenorol cyn yr adolygiad, yna rhaid i'r Gwasanaethau Cymdeithasol cyn pen 10 diwrnod gwaith o anfon ei benderfyniad i'r defnyddiwr gwasanaeth, dalu i'r defnyddiwr gwasanaeth y gwahaniaeth rhwng y swm a ddylai fod yn daladwy a'r swm, os o gwbl, sydd eisoes wedi'i dalu gan y defnyddiwr gwasanaeth.

Os yw'r Gwasanaethau Oedolion yn penderfynu bod y cyfraniad a ddylai fod yn daladwy gan y defnyddiwr gwasanaeth yn **fwy** na'r hyn a weithredwyd yn flaenorol cyn yr adolygiad, yna gallai'r Gwasanaethau Cymdeithasol adennill y gwahaniaeth rhwng swm y ffi neu'r cyfraniad a ddylai fod yn daladwy a'r swm, os o gwbl, sydd eisoes wedi'i dalu gan y defnyddiwr gwasanaeth.

Os yn adennill unrhyw swm gan y defnyddiwr gwasanaeth, rhaid i'r Gwasanaethau Oedolion ystyried amgylchiadau ariannol personol y defnyddiwr gwasanaeth; a bod yn fodlon na fydd adfer y swm yn achosi caledi ariannol i'r defnyddiwr gwasanaeth.  Os bydd Gwasanaethau Oedolion o’r farn y byddai adennill y swm yn peri i’r defnyddiwr gwasanaeth ddioddef caledi ariannol, yna dylent gynnig i’r defnyddiwr gwasanaeth yr opsiwn o ad-dalu’r swm bob yn dipyn mewn rhandaliadau.

DRAFT

**Atodiad 1 - Geirfa**

**Cefnogaeth cyflogaeth a hyfforddiant:** Cymorth personol ac ymarferol a ddarperir i unigolion ag anghenion gofal a chymorth er mwyn eu galluogi i gymryd rhan mewn cyfleoedd hyfforddiant, datblygu sgiliau, profiad gwaith neu gyflogaeth. Gall hyn gynnwys cymorth gyda chyrraedd a chadw lle mewn rhaglenni hyfforddiant, mentora, datblygu hyder, rheoli iechyd a lles, cyfathrebu â darpar gyflogwyr, a chymorth wrth bontio i'r gweithle neu leoliad hyfforddiant.

**Cynllun Lleoli Oedolion:** Hefyd yn cael ei adnabod fel Cysylltu Bywydau (*Shared Lives*), ac mae'n drefniant lle mae aelodau'r gymuned (gofalwyr cymeradwy) yn darparu llety ac/neu gefnogaeth i amrediad eang o unigolion gydag anghenion gofal a chefnogaeth (Gofal Cymdeithasol Cymru, 2022).

**Galw Gofal:** Gwasanaeth dwyieithog sy'n monitro galwadau brys 24/7, sy'n helpu i warchod pobl hŷn a phobl bregus yn eu cartrefi. Sefydlwyd Galw Gofal yn 2011 pan ffurfiodd Cynghorau Bwrdeistref Sirol Conwy, Ynys Môn a Gwynedd bartneriaeth i ddarparu gwasanaethau teleofal gyda'r gorau yn y diwydiant i drigolion y rhanbarth a thu hwnt (Galw Gofal, 2024).

**Gofal Dydd:** Darparu cefnogaeth i unigolion i gael mynediad at amrediad eang o weithgareddau wedi'u hanelu at gynyddu llesiant unigol a chynhwysiad cymdeithasol. Gallai'r rhain ddigwydd yn y gymuned neu mewn canolfan ddydd.

**Gofal Ysbaid**: Mae gofal ysbaid yn golygu cymryd seibiant o ofalu, tra bod y person rydych chi'n gofalu amdano yn cael gofal gan rywun arall (Gofal Cymdeithasol Cymru, 2022)

**Gofalwr di-dâl:** Rhywun sy'n gofalu neu'n bwriadu darparu gofal di-dâl i oedolyn oherwydd salwch corfforol neu feddyliol, oedran, anabledd, dibyniaeth ar sylweddau neu ofalu am blentyn anabl.

**Gwasanaethau Gofal Ailalluogi:** Mae ailalluogi yn fath o ofal sy'n eich helpu i ailddysgu sut i wneud gweithgareddau dyddiol, megis coginio prydau bwyd ac ymolchi yn dilyn cyfnod o salwch neu ar ôl cael eu rhyddhau o'r ysbyty.

**Hawl Sylfaenol:** Cyfrifiad sy'n cael ei wneud i gyfrifo hawl unigolyn i fudd-daliadau lles.

**Lleiafswm Incwm (MIA):** Y swm y mae'n rhaid i awdurdod lleol adael i ddefnyddiwr gwasanaeth ar gyfer gwariant dydd-i-ddydd. Polisi Cyngor Gwynedd yw defnyddio'r MIA sydd wedi'i osod gan Lywodraeth Cymru.

**Taliadau Uniongyrchol:** Lle mae awdurdodau lleol yn gwneud taliadau ariannol i unigolion yn hytrach na darparu gwasanaethau gofal, fel bod yr unigolyn yn medru trefnu ei ofal ei hun (Gofal Cymdeithasol Cymru, 2022).

**Teleofal:** Gwasanaeth monitro sy'n eich galluogi i alw am gymorth ddydd neu nos, trwy gyffwrdd botwm, neu drwy ddefnyddio cyfres o synwyryddion awtomatig wedi'u gosod yn y cartref. Mae teleofal yn ffordd ataliol o ddarparu gofal o bell i breswylwyr (Cyngor Gwynedd, 2024).

DRAFT